# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

**RHAN 3**

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

**PENNOD 2**

MANWERTHWYR TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

*Cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin*

PROSPECTIVE

**35 Mynediad i'r gofrestr**

(1) Rhaid i'r awdurdod cofrestru gyhoeddi rhestr sy'n nodi enw pob person cofrestredig a chyfeiriad pob un o'r mangreoedd a ddatgenir yng nghofnod y person yn y gofrestr fel mangre lle y mae busnes tybaco neu nicotin yn cael ei gynnal.

(2) Ond mewn cysylltiad â pherson cofrestredig sy'n cynnal busnes tybaco neu nicotin mewn mangre sy'n strwythur symudol, stondin, pabell neu gerbyd, rhaid i'r rhestr a gyhoeddir o dan is-adran (1) nodi, yn lle cyfeiriad y fangre, enw pob awdurdod lleol a ddatgenir yng nghofnod y person yn y gofrestr.

(3) Rhaid i'r awdurdod cofrestru hefyd roi ar gael i awdurdod lleol yr holl wybodaeth arall a gynhwysir yn y gofrestr i'r graddau y mae'n ymwneud â mangre yn ardal yr awdurdod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 35 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 35 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2